

Rhai sy'n caru'r Gair

"Rhowch eich bryd ar y pethau sydd uchod, nid ar y pethau sydd ar y ddaear."
(adn. 2)

Beth am ddarllen Colosiaid 3:1–17 ac yna myfyrio

Nid yw 'sancteiddrwydd' yn gyflwr y medrwn daro ar ei draws yn ein bywydau, fel petaem am ei brofi yn disgyn arnom o ryw wagle. Yn hytrach, rhaid gosod ein meddwl ar ei feddiannu. Mae'r rhan fwyaf o frwydrau ysbrydol yn cael eu hennill yn y meddwl. Yn ôl Paul, (Rhufeiniaid 12:1–2) wrth i'n meddyliau gael eu hadnewyddu, mae ein bywydau yn cael eu trawsffurfio.

Trosodd a thro yn y Beibl, fe'n gelwir i ganolbwyntio ein meddwl ar wirionedd Duw, er mwyn i wirionedd Duw, yn ei dro, drawsffurfio ein bywydau. Ystyriwch yr adnodau canlynol, y naill o Filipiaid 4:8, a'r llall o Rufeiniaid 8:5–6: 'Bellach, gyfeillion, beth bynnag sydd yn wir, beth bynnag sydd yn anrhydeddus, beth bynnag sydd yn gyfiawn a phur, beth bynnag sydd yn hawddgar a chanmoladwy, pob rhinwedd a phopeth yn haeddu clod, myfyriwch ar y pethau hyn,' ac yna: 'Oherwydd y sawl sydd â'u bodolaeth ar wastad y cnawd, ar bethau'r cnawd y mae eu bryd; ond y sawl sydd ar wastad yr Ysbryd, ar bethau'r Ysbryd y mae eu bryd. Yn wir, y mae bod â'n bryd ar y cnawd yn farwolaeth, ond y mae bod â'n bryd ar yr Ysbryd yn fywyd a heddwch. Oherwydd y mae bod â'n bryd ar y cnawd yn elyniaeth tuag at Dduw; nid yw hynny, ac ni all fod, yn ddarostyngiad i Gyfraith Duw. Ni all y sawl sy'n byw ym myd y cnawd foddhau Duw.'

Yn sylfaenol, mae'n debyg mai rheolaeth feddylol yw hunanreolaeth. Wrth inni roi ein meddwl ar ufuddhau, yna fe welwn ganlyniadau hynny. Mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd, os nad yw ein meddwl ar ufudd-dod rhaid derbyn y ganlyniadau. Yr ydym yn medi yn ein gweithredoedd yr hyn a heuwyd gan ein meddwl. Nes y medrwn ddeall yr angen i reoli'r meddwl, ni fyddwn yn darganfod cyfrinach sancteiddrwydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 119:9–11; 97–104; Rhuf. 8:1–10

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut lwyddodd y Salmydd i osgoi pechod?
2. Sut y gellir newid a rheoli dymuniadau anghywir?

Gweddi

O! Dad trugarog, yr wyt wedi datguddio dy feddwl trwy dy Air. Cynorthwya fi i roi fy meddwl i Ti. Rwy'n caru dy Air, cynorthwyo fi i dy garu fwy, drwy ufuddhau i'th Air. Yn enw Iesu. Amen.